**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| E T Kirchner | M S Tribe | V A Holland |
| S Joy | | |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
| --- | --- |
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros y Gymuned |

**Swyddogion**

| | |
| --- | --- |
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Linzi Margetson | Prif Swyddog Diogelu, Ansawdd a Pherfformiad |
| Kelli Richards | Prif Swyddog Cymorth Cynnar a Phwynt Cyswllt Unigol |
| Kathryn Sillman | Rheolwr Peripatetig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): K M Griffiths, S M Jones a/ac W G Lewis
Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd A Anthony

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Monitro Perfformiad (gan gynnwys sesiwn ar archwilio ansoddol)

Rhoddodd Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, drosolwg o berfformiad ar gyfer mis Medi 2023. Rhoddodd Kathryn Sillman, Rheolwr Peripatetig, wybodaeth i'r Panel am sut mae archwilio ansoddol yn gweithio a'r meysydd y canolbwyntir arnynt ar hyn o bryd yn y Gyfarwyddiaeth.

Pwyntiau Trafod:

- Trafododd y Panel sut mae archwilio ansoddol yn y bôn yn edrych ar y prosesau a'r technegau a ddefnyddir i sicrhau eu bod yn gweithio yn y ffordd orau bosib. Esboniodd fod y Gyfarwyddiaeth yn edrych ar waith yn gyffredinol ac mae'r Academi yn rhan o hyn.
- Mae'r Panel yn teimlo'n fodlon wrth edrych ar yr adroddiad perfformiad fod pethau'n edrych yn weddol sefydlog.
- Mae'r Panel yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud i ffwrdd o'r system gyfrifiadurol bresennol.

Camau Gweithredu:

- Y Panel i dderbyn rhagor o wybodaeth am y system gyfrifiadurol newydd.

## 6 Y diweddaraf am Raglen Wella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Roedd Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Linzi Margetson, Prif Swyddog Diogelu, Ansawdd a Pherfformiad, yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ac atebon nhw gwestiynau'r Panel.

Pwyntiau Trafod:

- O ran gofal preswyl, mae'r Panel o'r farn bod y gwasanaeth yn dal i gael trafferth wrth ddod o hyd i eiddo priodol i'w brynu a'i addasu, a holodd a oedd y cyngor yn dal i orfod anfon plant allan o'r sir er mwyn iddynt gael llety priodol. Hysbyswyd bod y gwasanaeth yn gweld cynnydd yn nifer y plant mewn gofal preswyl, sy'n rhannol gysylltiedig â'r lleoliadau gofal maeth annigonol sydd ar gael. Ar hyn o bryd mae ganddynt bedwar gwely mewnol, ac mae disgwyl i hyn gynyddu i 15 dros y tair blynedd nesaf.
- Gofynnodd y Panel i Aelodau'r Cabinet/swyddogion fynegi eu meddyliau a'u diolch i'r staff am y gwaith y maent wedi'i wneud - maent yn falch iawn o safon y perfformiad o fewn yr Adran ac yn edrych ymlaen at ei weld yn parhau am y 12 mis nesaf ac wedi hynny.
- Gofynnodd y Panel am yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran recriwtio a staffio asiantaethau. Clywyd bod recriwtio gweithwyr cymdeithasol yn parhau i fod yn her. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ehangu'r gweithlu sydd wedi'i gymhwyso mewn ffyrdd eraill. Ar hyn o bryd mae pum gweithiwr cymdeithasol asiantaeth ar draws y gwasanaeth, sy'n isel o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r adran yn recriwtio'n llwyddiannus i academi gwaith cymdeithasol y cyngor, gydag 11 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ar hyn o bryd.

## 7 Y diweddaraf am 'Coll, Camfanteisio a Masnachu Cyd-destunol (CMET)'

Roedd Kelli Richards, Prif Swyddog, yn bresennol i friffio'r Panel, gan gynnwys darparu trosolwg o Dîm CMET, crynodeb o ddatblygiadau a chynnydd diweddar ac enghreifftiau o weithgarwch a wnaed.

Pwyntiau Trafod:

- Roedd ymrwymiad a gwaith caled y tîm wedi gwneud argraff fawr ar y Panel.
- Clywodd y Panel gan Aelodau’r Cabinet pa mor falch ydyn nhw fod y tîm wedi cael canmoliaeth uchel yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel Cymru 2023 am ei waith blaengar ac arloesol.
- Holodd y Panel pa mor aml mae'r clwb ieuenctid 'dros dro' yn Mayhill yn cael ei gynnal a beth sy'n digwydd am weddill yr amser.  Clywodd y Panel fod clwb Mayhill yn cael ei gynnal unwaith yr wythnos ond mae pum clwb ieuenctid awdurdod lleol ar y cyfan, y mae pob un ohonynt yn cael eu cynnal ar nosweithiau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.  Mae yna hefyd ychydig o glybiau ieuenctid annibynnol yn cael eu cynnal yn yr ardal.

## 8 Cynllun Waith 2023-24

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.35 pm